Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Pen Y Pîl
Glan-Y-Mor Road
Trowbridge
Caerdydd
CF3 1RQ

01/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim**: Mehefin 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Pen Y Pîl yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol ac un o flaenoriaethau cyfredol yr ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu darpariaeth darllen Cymraeg er mwyn cefnogi disgyblion i wella eu dealltwriaeth o destunau ar draws y meysydd dysgu

- Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n fwriadus i gryfhau medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn dadansoddi ystod o wybodaeth adborth ac asesu yn effeithiol ac yn defnyddio'r canfyddiadau'n bwrpasol i gynllunio darpariaeth sy'n ymateb yn briodol i anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn cefnogi eu medrau darllen yn fwriadus.
- Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol buddiol i staff er mwyn cysoni dulliau addysgu darllen. Trwy hyn, mae gan staff ddealltwriaeth gytûn o'r disgwyliadau wrth ddatblygu medrau darllen disgyblion.
- Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion partner i ddatblygu darpariaeth lafar fwriadus i ddisgyblion er mwyn bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at allu disgyblion i drafod testunau amrywiol a gwella eu dealltwriaeth a mwynhad o'r hyn maent yn ei ddarllen.
- Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddarllen. Maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â thestunau digidol ac yn defnyddio dulliau

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

priodol i'w cefnogi i ddehongli a deall geiriau anghyfarwydd. Mae staff wedi rhannu gwybodaeth briodol â rhieni er mwyn eu hannog i gefnogi medrau darllen eu plant yn y cartref.

- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o berthynas rhwng sain a symbol ac yn magu hyder wrth gyfuno seiniau i adeiladu geiriau syml a dechrau darllen. Wrth iddynt aeddfedu, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn dangos dealltwriaeth dda o eirfa gyfoethog ac yn defnyddio'r wybodaeth i gefnogi eu dysgu a'u cynnydd ar draws meysydd y cwricwlwm yn effeithiol.
- Mae athrawon yn darparu ardaloedd darllen priodol o fewn y dosbarthiadau sy'n hwyluso mynediad parhaus i ddisgyblion at lyfrau. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i gryfhau'r amgylchedd dysgu er mwyn dathlu cariad at lyfrau ynghyd â meithrin diwylliant cynhwysol o ddarllen ym mhob elfen o waith yr ysgol.

## Datblygu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso a dyfnhau eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad

- Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Maent wedi cydweithio'n agos ag ysgolion partner er mwyn rhannu arbenigedd a chydgynllunio gweithgareddau rhifedd gwerthfawr i ddisgyblion.
- Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol pwrpasol i staff sy'n cryfhau eu dealltwriaeth a chodi eu hyder wrth gynllunio a chyflwyno tasgau rhifedd perthnasol.
- Mae staff y ffederasiwn yn cydweithio'n effeithiol i lunio cynlluniau rhifedd gwerthfawr sy'n darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu ystod gytbwys o fedrau mathemategol ar draws y meysydd dysgu.
- Wrth i athrawon gyflwyno'r tasgau rhifedd i ddisgyblion, mae llawer yn gwahaniaethu'r tasgau yn addas ar gyfer bodloni eu hanghenion unigol. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r tasgau, gyda llawer yn datblygu eu medrau yn adeiladol dros amser.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6812171

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol